# Ymgysylltiad Safle Strategol ym Mwrdeistref Sirol Conwy gan Gymorth Cynllunio Cymru: Adroddiad Hen Golwyn

## 1. Cefndir

Comisiynwyd Cymorth Cynllunio Cymru gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBS Conwy) ym Medi 2023 i ddarparu gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned anstatudol ar 5 Safle Strategol yng Nghynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy. Mae'r adroddiad hwn hyn rhoi crynodeb o'r gweithgareddau a wnaed o ran Safle Strategol Hen Golwyn. Mae'n crynhoi'r adborth a gafwyd gan gymunedau lleol a gymerodd ran yn y digwyddiadau ar gyfer y safle a gyflwynwyd gan Gymorth Cynllunio Cymru. Bydd yr adroddiad hwn a'r holl sylwadau ychwanegol a gafwyd ar e-bost yn cael eu cyflwyno i CBS Conwy sy'n bwriadu defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i gyfeirio cam Archwilio gan y Cyhoedd y cynllun.

Fel sefydliad sy'n cefnogi ymgysylltu â'r gymuned yn y broses gynllunio, mae Cymorth Cynllunio Cymru ond yn gwneud comisiynau sy'n:

- Cyd-fynd â'i genhadaeth ar gyfer system gynllunio decach, mwy tryloyw ac ymatebol.
- Mae'n credu y gall ychwanegu gwerth i ymgynghoriad cynllunio / proses ymgysylltu ac y bydd yn caniatáu i fwy o bobl gael dweud eu dweud yn fwy ystyrlon yn y broses honno.

Yn ogystal â bodloni'r blaenoriaethau hyn, mae Cymorth Cynllunio Cymru yn croesawu'r gweithgaredd ymgysylltu hwn yn arbennig. Tra bod gwersi a ddysgwyd yn gallu cael eu defnyddio gyda gweithgareddau'r dyfodol, mae'n mynd y tu hwnt i beth sydd angen i Awdurdod Cynllunio Lleol ei wneud mewn rheoliadau cynllunio - mae'r ymarfer cyfan yn cael ei gyflwyno yn ychwanegol i ymgynghoriadau 'statudol' sydd wedi ac a fydd yn cael eu cynnal ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

## 2. Cwmpas a Methodoleg

Bwriad y gwaith ymgysylltu hwn oedd edrych ar safbwyntiau cynrychiolwyr cymunedol ynglŷn â sut y gellir datblygu'r safleoedd yn y dyfodol. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon i arwain polisïau safle penodol / Cynlluniau Lleoedd / Brîff Safle / Uwchgynlluniau (neu hyd yn oed ceisiadau cynllunio) a bydd yn hwyluso cynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd i'w Archwilio yn 2024.  Roedd cwmpas y prosiect gwreiddiol yn cynnwys darparu un digwyddiad wyneb yn wyneb ac un digwyddiad ar-lein ar gyfer bob safle (cyfanswm o 10 digwyddiad) rhwng Hydref a Rhagfyr 2023. Roedd diffyg lleoliadau ar gael yn golygu nad oedd yn bosib cynnal yr holl ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod hwn a chaniatáu amser ar gyfer hysbysebu, ac o ganlyniad cytunwyd y byddai rhai digwyddiadau'n cael eu symud i Ionawr 2024 a byddai digwyddiadau ychwanegol yn cael eu cynnal yn dibynnu ar alw.

Mae'r prosiect wedi denu adborth sylweddol ar gyhoeddusrwydd y digwyddiadau gan aelodau o'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig. Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi gwneud bob ymdrech i addasu natur y gweithgareddau yn briodol ac yn anffodus, nid oedd yn bosib defnyddio rhestrau cyswllt Cynllun Datblygu Lleol oherwydd rhesymau Diogelu Data. O ganlyniad, mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi gwneud gwaith ychwanegol y tu hwnt i gwmpas y cynnig gwreiddiol, gan gynnwys paratoi a phostio llythyrau at drigolion sy'n agos at y safle (gweler adran 3, isod), a chynnal dau ddigwyddiad wyneb yn wyneb i ateb y galw.

Dilynodd y digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb yr un fformat yn fras. Rhoddodd Cymorth Cynllunio Cymru gyflwyniad ac yna cynnal trafodaeth cynulleidfa ynghylch set o destunau eang oedd yn gorgyffwrdd. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys gwybodaeth am:

- Swyddogaeth Cymorth Cynllunio Cymru a natur y digwyddiadau.
- Trosolwg cryno o broses baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, dyraniadau tir, safleoedd ymgeisiol a sut mae CDLl yn dylanwadu ar benderfyniadau ceisiadau cynllunio.
- Crynodeb o'r gweithgareddau sydd eisoes wedi digwydd ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy hyd yma (gan gynnwys ymgynghoriad y Strategaeth a Ffefrir yn 2019) a'r ymgynghoriad Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd a ddisgwylir yn 2024.
- Diffiniad o Safleoedd Strategol, a sut maent yn cael eu hasesu a'u dethol.
- Targedau cyfredol yr awdurdod (4,300 o gartrefi gan gynnwys 700/20% wrth gefn a 1,500 o swyddi ar dir cyflogaeth 16.4ha).
- Adolygiad o'r dyraniad safle a fwriedir yn Strategaeth a Ffafrir 2019 a chymhariaeth â'r cynnig cyfredol.

- Mae manylion y cynnig cyfredol fel a ganlyn:
  - Gostyngiad yn y nifer o gartrefi a ragwelir o 450 i 200-300 o gartrefi newydd, i gynnwys tai fforddiadwy, fel rhan o ddatblygiad fesul cam.
  - Rhwydwaith ffyrdd lleol a theithio llesol gwell.
  - Man agored cyhoeddus.
  - Tir wedi'i ddiogelu ger Ysgol Sŵn y Don ar gyfer ehangu.
  - Gofod meddyg teulu wedi'i ddarparu o fewn y feddygfa bresennol yn y tymor byr, yn destun trafodaethau pellach / lliniaru gyda'r feddygfa a'r Bwrdd Iechyd.
  - Nodi fod y dyraniad presennol gerllaw ar gyfer Tŷ Mawr yn debygol o barhau ar ~ 237 o gartrefi.

Ymdriniodd Cymorth Cynllunio Cymru â chwestiynau ar weithdrefnau ble bynnag fo'n bosib a gofynnwyd cwestiynau dilynol i ystyried materion ymhellach pan oedd yn briodol, ond pwysleisiwyd hefyd y byddai unrhyw adborth (gan gynnwys cwestiynau) a gasglwyd yn cael ei gyflwyno'n ôl i CBS Conwy air am air.

Ar gyfer y digwyddiad ar-lein, cafodd y sesiwn gyfan ei recordio a chafodd adborth gan gyfranogwyr ei drawsgrifio. Ar gyfer y sesiwn wyneb yn wyneb, cafodd y cyfranogwyr gopïau papur o'r map safle a thaflenni hybu trafodaeth a chawsant wahoddiad i gofnodi eu hadborth un ai'n uniongyrchol ar y taflenni neu ar nodiadau.

Hwyluswyd pedwar testun trafod eang fel a ganlyn:

1. **Argraffiadau Cyntaf**, ble gwahoddwyd sylwadau a chwestiynau cychwynnol ar unrhyw destun.
2. **Gwybodaeth Leol,** ble gwahoddwyd cyfranogwyr i ddisgrifio cymeriad y safle presennol ar hyn sydd o'i amgylch a rhannu eu safbwyntiau ar y cais a'r effeithiau yng nghyd-destun y wybodaeth hon.
3. **Dylunio Safle**, ble gwahoddwyd cyfranogwyr i ystyried goblygiadau dylunio mewn perthynas â mynediad / priffyrdd, symudiad ar draws y safle, Teithio Llesol, ffurf a natur man agored, materion amgylcheddol, diogelwch ac unrhyw welliannau posib a fyddai'n gwneud y dyraniad yn well.
4. **Blaenoriaethau Cymunedol,** ble gwahoddwyd cyfranogwyr i ystyried anghenion y gymuned, bylchau mewn darpariaeth neu unrhyw welliannau neu fuddion y gallai'r safle eu creu.

Cyflwynir crynodeb o'r adborth a gasglwyd fel rhan o'r ymarfer yn rhan 4, isod. Mae atodiad A yn cyflwyno'r adborth llawn fel y cyflwynwyd yn y ddau ddigwyddiad. Pwysleisiwyd hefyd y gellir darparu sylwadau pellach yn ysgrifenedig erbyn 31 Ionawr 2024, ac mae'r holl ohebiaeth a gafwyd wedi ei roi i CBS Conwy gyda'r adroddiad hwn. Mae crynodeb o'r sylwadau ychwanegol a gafwyd yn Atodiad B

(SYLWER: ni chyhoeddwyd y sylwadau llawn yn yr adroddiad hwn am resymau Diogelu Data).

**3. Hysbysebu, archebu ac adborth ar gyhoeddusrwydd**

Gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol yn CBS Conwy, bu i Gymorth Cynllunio Cymru baratoi deunydd hysbysebu aml-sianel oedd yn cynnwys:

- Cyflwynwyd hysbysiadau e-bost i gynrychiolwyr lleol yn unol ag ymchwil ar draws 9 categori (Aelodau Etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned, Cynghorau cyfagos, gwasanaethau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, grwpiau lleol, cynrychiolwyr busnes lleol ac 'eraill' megis cyfryngau lleol a grwpiau anodd eu cyrraedd). Mewn achosion o'r fath, roedd Cymorth Cynllunio Cymru yn dibynnu ar wybodaeth oedd ar gael yn gyhoeddus neu a ellir dod o hyd iddi trwy chwilio ar y rhyngrwyd.
- Cyhoeddwyd negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol CBSC.
- Cyhoeddwyd datganiadau i'r wasg leol trwy dîm y wasg CBSC.
- Rhannwyd manylion ar wefan CBSC.
- Dosbarthwyd posteri i leoliadau priodol, e.e. neuaddau Cyngor Tref, eglwysi a siopau yn agos at bob safle.
- Anfonwyd llythyrau i eiddo cyfagos neu ger y safleoedd dan sylw.

Roedd pob hysbysiad e-bost yn gwahodd cyfranogwyr i rannu'r gwahoddiadau gyda'u rhwydweithiau lleol. Mewn rhai achosion, denodd hyn sylw sylweddol yn y cyfryngau cymdeithasol a'r wasg.

Roedd pob hysbysiad yn cynnwys dolen at ffurflen archebu digwyddiad ar lwyfan Eventbrite a ddefnyddiwyd er mwyn i Gymorth Cynllunio Cymru gynllunio o amgylch nifer y digwyddiadau.

Anfonwyd cyfanswm o 88 neges e-bost [1] a 394 llythyr. Cynhyrchwyd crynodeb o'r hysbysebu a gyflwynwyd gan Gymorth Cynllunio Cymru, yr archebion a nodir y cyfranogiad canlyniadol ar gyfer safle Hen Golwyn isod:

| Digwyddiad | Archebion | Yn bresennol |
|---|---|---|

[1]Yn dangos y nifer o gyfeiriadau e-bost unigryw a ymchwiliwyd ar gyfer grwpiau lleol a oedd ar gael yn gyhoeddus trwy edrych ar Google. Mae'n bosib fod Cymorth Cynllunio Cymru a CBS Conwy wedi cysylltu â chyfeiriadau'n annibynnol.

| | | |
|---|---|---|
| Hen Golwyn - Ar-lein, 12 Rhagfyr. | 20 | 14 |
| Hen Golwyn - Eglwys Festival, 10 Ionawr. | 50[1] | 29 |
| Hen Golwyn - Stadiwm CSM (x2) 22 Ionawr | 105 | 62 |
| **Cyfanswm:** | **175** | **105** |

[1] Gwahoddwyd cyfranogwyr i fynychu'r digwyddiad 22 Ionawr ar ôl i archebion gyrraedd cyfyngiad y lleoliad o 80 gyda rhestr aros o 13. Am resymau iechyd a diogelwch.

<u>Adborth ar gyhoeddusrwydd</u>

Gwnaed addasiadau wrth roi cyhoeddusrwydd i weithgareddau ble bynnag fo'n bosib wrth i'r gweithgareddau ddatblygu ac yn unol â'r adborth a gafwyd gan aelodau lleol a'r cyhoedd. Roedd hyn yn cynnwys hysbysebu trwy'r post, nad oedd yn wreiddiol yn rhan o gwmpas y prosiect.

Yn achos safle Hen Golwyn, anfonwyd llythyr i 394 o eiddo gerllaw'r safle gan ddefnyddio'r cyfeiriadau o fapiau ar-lein CBS Conwy, fel y dynodir at y map canlynol:




Dylid nodi, yn wahanol i arolwg cyhoeddus, ble gwahoddir y boblogaeth ehangaf bosib i ddenu ystod o safbwyntiau, roedd y digwyddiadau hyn wedi eu dylunio i edrych a thrafod barn cynrychiolwyr cymunedol sy'n lleol i'r safleoedd. Er hynny, codwyd pryderon yn ystod y prosiect:

- Nad oedd y digwyddiadau wedi eu hysbysebu'n ddigon eang a ni fu iddynt gyrraedd digon o bobl mewn pryd. Roedd hyn yn rhannol gyfyngedig gan yr

amserlenni a sefydlwyd i gwblhau'r prosiect ac yn rhannol gan y cysylltiadau cyfyngedig a ellir eu rhoi i Gymorth Cynllunio Cymru a chafodd pryderon y tenantiaid eu trin gan CBS Conwy yn uniongyrchol. Hysbysebwyd bob digwyddiad i aelodau etholedig lleol, Cyngor Tref Hen Golwyn, trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol Conwy, trwy ddatganiadau i'r wasg a thrwy hysbysebu lleol a llythyrau.

- Nid oedd y wybodaeth a ddarparwyd am y digwyddiadau yn ddigonol a chafwyd sawl cais am fwy o wybodaeth gan CBS Conwy a Chymorth Cynllunio Cymru. Er y gwnaed bob ymdrech i fod yn glir ynglŷn â natur y digwyddiadau yn yr hysbysebu cychwynnol, codwyd nifer o bryderon ynghylch diffyg gwybodaeth am y cynigion ar y safleoedd eu hunain. Er y pwysleisiwyd ar bob cyfle bod gwybodaeth ar gael am y safleoedd ar y cam hwn o'r broses CDLl Newydd ac mai nod yr ymarfer yw cefnogi'r ymgynghoriad statudol dilynol ar y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, bu i'r pryderon hyn barhau. Cyflwynodd Cymorth Cynllunio Cymru ddogfen Cwestiynau Cyffredin 10 tudalen ynglŷn â'r ymarfer a dosbarthu sleidiau digwyddiad ar ôl y digwyddiad cyntaf ar bob safle o ganlyniad.

Yn seiliedig ar yr uchod, byddai Cymorth Cynllunio Cymru yn gwneud yr argymhellion canlynol ar gyfer gwella cyhoeddusrwydd yn y dyfodol:

1. Sefydlu a chyhoeddi cwmpas a chyfyngiadau gweithgareddau o'r dechrau, gosod hyd yn oed yn fwy o bwyslais ar wahodd cynrychiolwyr cymunedol i helpu i 'ledaenu'r gair'.
2. Caniatáu isafswm o 8 wythnos o amser arwain ar gyfer hysbysebu bob digwyddiad.
3. Sicrhau y sefydlir tudalen we gyda'r holl wybodaeth gefndir, dolenni at ymarferion blaenorol a manylion ynghylch sut i archebu lle mewn digwyddiadau cyn dechrau hysbysebu.
4. Ystyried lleoliadau mwy / mwy hyblyg, gan ystyried agosrwydd at y safleoedd dan sylw.
5. Sicrhau bod y gofrestr CDLl ar gael / y gellir cael cyhoeddusrwydd trwy'r gofrestr.
6. Bu i nifer o gyfranogwyr yn Hen Golwyn awgrymu y dylai pobl ifanc yn yr ardal fod yn rhan o'r broses.

## 4. Crynodeb o'r adborth ar Safle Hen Golwyn

Daeth 105 o gyfranogwyr i'r digwyddiadau ac anfonodd 17 unigolyn arall sylwadau ar e-bost. Ar y cyfan, roedd ymarfer Hen Golwyn wedi gallu cynhyrchu mwy na 630 o sylwadau unigol ar ystod eang o faterion a oedd o bryder pennaf a gwybodaeth leol, er bod rhai sylwadau ar ddyluniad y safle a blaenoriaethau cymunedol.

Roedd Cymorth Cynllunio Cymru yn teimlo fod nifer helaeth a oedd yn bresennol yn debygol o wrthwynebu'r safle pe bai'r ymarfer yn ymgynghoriad ffurfiol, ac mewn gwirionedd, bu i sawl e-bost dilynol a gafwyd ganfod eu bod yn wrthwynebiadau. Mynegodd rhai cyfranogwyr gefnogaeth i dai newydd 'mewn egwyddor' ond hefyd yn mynegi pryderon hefyd am y cyfiawnhad o angen yn y safle, graddfa'r cynnig a'r effeithiau cysylltiedig posibl.

Er bod y sesiynau wedi eu rhannu'n bedwar pwnc trafod eang, bu i bob pwnc orgyffwrdd â'r nesaf, ac er rhwyddineb, mae'r crynodeb canlynol yn cymryd ystyriaeth o adborth o bob digwyddiad a phynciau trafod ac wedi ei rannu yn i). Materion sy'n peri pryder a ii). Camau lliniaru a gwelliannau.

### <u>i). Materion sy'n peri pryder i'r gymuned</u>

Mae'r pwyntiau canlynol wedi eu graddio yn ôl pa mor aml y'u nodwyd gan unigolion gwahanol ar draws bob digwyddiad a sylwadau ychwanegol a gafwyd ar e-bost.

**<u>SYLWER:</u>** Nid yw hon yn rhestr lawn o'r holl faterion a godwyd - gweler atodiadau A a B am nodiadau'r holl adborth a gafwyd.

Roedd y meysydd o bryder mwyaf cyffredin, yn nhrefn pa mor aml y'u codwyd (uchaf yn gyntaf) yn cynnwys:

### 1. Bydd y dyraniad yn cael effaith niweidiol ar ddiogelwch y briffordd.

Codwyd cyfanswm o 78 o sylwadau mewn perthynas â materion traffig, mynediad, diogelwch y briffordd a chludiant cyhoeddus ar draws yr holl weithgareddau (Gweler

atodiadau A a B am fwy o fanylion). Gall y rhain gael eu dosbarthu i'r themâu canlynol:

1. Mae'r rhwydweithiau ffyrdd a lonydd mynediad presennol a fydd yn cysylltu â'r safle eisoes yn dioddef tagfeydd trwm ar gyfnodau prysur ac ni all ymdopi â'r rhagamcan o 1,000 o geir ychwanegol y bydd y safle yn ei ddenu (Cyfeiriwyd at Ffordd Coed Coch, Ffordd Llanelian a Chylchfan Marine nifer o weithiau). Bydd y traffig ychwanegol yn achosi mwy o lygredd ac ni fydd yn ddiogel.

2. Bydd gyrwyr yn ceisio osgoi'r uchod ac yn defnyddio lonydd megis Lôn Peulwys sy'n gul, heb ei fabwysiadu'n rhannol, yn troelli, heb unrhyw balmentydd ac ychydig iawn o fannau pasio, gan achosi pryderon mynediad a diogelwch ar gyfer gyrwyr, cerddwyr a gwasanaethau brys.

3. Bydd y preswylwyr newydd angen teithio i'r gwaith ac mae'r pellter y safle o ganol y dref a chyfleustodau yn golygu y bydd angen defnyddio car. Nid yw'r safle wedi'i wasanaethu gan gludiant cyhoeddus (a dylai fod) a bydd serthrwydd y safle yn ei wneud yn anaddas ar gyfer teithio llesol i nifer o bobl.

4. Bydd y cynigion adfywio ar gyfer Cylchfan Marine yn cael ei effeithio'n negyddol gan y safle(oedd), yn ogystal â mesurau reoli traffig eraill megis y terfyn cyflymder 20mya a thwmpathau cyflymder.

5. Cyflawnwyd yr asesiad traffig presennol yn ystod cyfnodau clo 202, nid yw'r adlewyrchu symudiad traffig gwirioneddol ac nid yw'n ddiduedd gan ei fod wedi ei baratoi gan y datblygwr. Dylai asesiadau traffig annibynnol newydd gael eu cyflawni. Awgrymodd rhai y byddai angen system unffordd.

**2. Mae'r dyraniad yn amhriodol / diangen.**

Codwyd 76 o sylwadau mewn perthynas â'r angen am dai (yn arbennig ar y raddfa hon), bydd yn arwain at golli hunaniaeth a chymeriad Hen Golwyn ac ni fydd yn mynd i'r afael ag anghenion preswylwyr lleol. Mae'r prif themâu a nodwyd yn cynnwys:

1. Nid yw'r angen am dai ar y safle wedi cael ei gyfiawnhau, mae'n mynd yn erbyn polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol a byddai'n arwain at golli tir gwaith amaethyddol a newid di-droi'n ôl i gymeriad a hunaniaeth Hen Golwyn fel pentref. Bydd y safle(oedd) yn dod yn 'Golwyn Newydd' ac ni fyddai'n gallu integreiddio â'r gymuned a byddai'n cynrychioli blerdwf trefol nad oes modd ei gyfiawnhau. Mae gan y safle ei hun ystod eang o gyfyngiadau daearegol,

topolegol a chyfyngiadau eraill (wedi'u nodi o dan adrannau eraill isod) ac nid oes unrhyw dystiolaeth wedi cael ei gyflwyno i gyfiawnhau ei addasrwydd.

2. Nid yw'r safle yn bodloni anghenion y boblogaeth. Roedd data'r Cyfrifiad 2021 yn dangos fod poblogaeth Hen Golwyn wedi lleihau o 0.2% yn y 10 mlynedd ddiwethaf, a byddai'r cynnig yn arwain at gynnydd heb gyfiawnhad yn y boblogaeth o 14%. Mae'r gyfran o bobl 65 oed wedi cynyddu o 11% yn yr un cyfnod ac mae'r safle yn rhy bell o ganol y dref, yn rhy serth, ac nid oes cludiant cyhoeddus yn ei wasanaethu, gan ei wneud yn anaddas.

3. Mae tai newydd wedi cael eu canolbwyntio yn anghymesur yn Hen Golwyn ac mae cynlluniau a datblygiadau blaenorol wedi methu â gwella isadeiledd a gwasanaethau lleol.

**3. Bydd y dyraniad yn effeithio'n negyddol ar wasanaethau lleol sydd eisoes yn ei chael yn anodd**

Roedd 61 o'r sylwadau yn codi pryderon am y capasiti annigonol o ran addysg leol, iechyd a gwasanaethau eraill er mwyn bodloni'r galw presennol, heb sôn am y tai ychwanegol a geisir. Mae'r prif themâu a nodwyd yn cynnwys:

1. Capasiti annigonol gwasanaethau iechyd lleol. Yn bennaf mae'r pwysau presennol ar feddygfa Cadwgan, oedi hir ar gyfer apwyntiadau ac anallu i recriwtio meddygon newydd yn golygu y bydd y tai ychwanegol yn effeithio yn negyddol ar hyn. Cyfeiriwyd hefyd at wasanaethau iechyd eraill gan gynnwys deintyddiaeth, ysbyty, gofal cans a nyrsio cymunedol. Codwyd pryderon bod y ffigyrau a adroddwyd gan Ymddiriedolaeth Iechyd Betsi Cadwaladr i benderfynu ar y capasiti (1.2 unigolyn / tŷ) yn annigonol, ac a oedd yr Ymddiriedolaeth wedi cadarnhau gallent ymdopi â'r tai ychwanegol.

2. Effaith ar ysgolion. Hefyd codwyd nifer o bryderon am gapasiti'r ysgol a'r heriau cyllidebol presennol maent yn eu hwynebu, er gwaethaf y capasiti a mesurau lliniaru a adroddwyd ar gyfer Ysgol Sŵn y Don. Roedd rhai yn teimlo na fyddai'r galw yn gallu cael ei ddiwallu gan yr ysgol bresennol, hyd yn oed petai'n cael ei ehangu, ac na fyddai capasiti ychwanegol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

3. Cyfeiriwyd at ystod eang o wasanaethau eraill gyda'r un problemau capasiti, gan gynnwys y gwasanaethau brys, plismona ac isadeiledd lleol (ffyrdd, cyflenwad dŵr, draenio, trydan ac ati).

**4. Mae llifogydd lleol yn cynyddu ac ni all isadeiledd dŵr ymdopi**

Derbyniwyd 59 o sylwadau mewn perthynas â llifogydd, dŵr wyneb, capasiti draen a charthffosiaeth a chyflenwad dŵr. Mae'r prif themâu a nodwyd yn cynnwys:

1. Mae'r digwyddiadau o lifogydd o amgylch y safle yn cynyddu (mae rhai wedi cysylltu hyn â newid hinsawdd) ac nid yw'r draeniau a charthffosydd presennol yn gallu ymdopi eisoes. Rhoddwyd nifer o enghreifftiau o lifogydd ar gaeau a ffyrdd a lonydd lleol ar Ffordd Coed Coch, Lôn Peulwys ac Ystâd Peulwys, gyda ffotograffau wedi'u cyflwyno gyda sylwadau ysgrifenedig. Nododd rhai bod y sefyllfa wedi gwaethygu o ganlyniad i'r datblygiadau tai a gwblhawyd yn ddiweddar ac amlygodd eraill bod daeareg y safle (meini clai) a thopograffi'r safle (allt serth) yn gwaethygu materion. Dywedodd nifer y bydd y tai newydd yn creu dŵr wyneb ffo ychwanegol ac ychydig iawn oedd yn teimlo y byddai'r mater yn gallu cael ei ddatrys gan Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy ar y safle. Awgrymodd rhai bod angen uwchraddio'r isadeiledd presennol a gofynnodd eraill am fwy o adroddiadau manwl gwrthrychol ar y mater.

2. Hefyd codwyd pryderon am gapasiti carthffosydd budr ac na fyddai'r isadeiledd presennol yn gallu ymdopi â chynnydd mor fawr mewn tai. Gofynnodd rhai am uwchraddio'r system bresennol a bod systemau ar wahân eu hangen ar gyfer unrhyw dai newydd.

3. Codwyd rhai pryderon fod y cyflenwad dŵr yn annigonol ar gyfer y preswylwyr presennol, heb sôn am eiddo newydd.

**4. Dylid blaenoriaethu safleoedd tir llwyd amgen**

Roedd 33 o sylwadau yn awgrymu y dylai CBS Conwy flaenoriaethu safleoedd tir llwyd dros ddyraniadau tir glas. Roedd nifer o sylwadau yn awgrymu y dylai cyfanswm y ffigyrau tai gael eu dosbarthu'n well ar draws yr awdurdod mewn safleoedd mewnlenwi a thir llwyd yn hytrach na'n grynodedig yn Hen Golwyn. Awgrymwyd Bae Colwyn yn benodol fel dewis amgen, lle dylai siopau gwag ac adeiladau eraill gael eu blaenoriaethu i adfywio'r dref a helpu i fodloni amcanion teithio llesol.

**5. Bydd y dyraniad hefyd yn dinistrio cynefinoedd lleol**

Roedd 33 o sylwadau yn codi pryderon bod colli tir yn niweidiol i'r ecosystem leol, gan arwain at golli Fflora a Ffawna pwysig (a gwarchodedig mewn rhai achosion). Cyfeiriwyd at ystod eang o rywogaethau gan gynnwys tegeirianau, ystlumod, adar (gan gynnwys adar ysglyfaethus), gloÿnnod byw a moch daear. Yn ogystal â cholli cynefinoedd, codwyd pryderon o ran colli gwrychoedd fel safleoedd bwydo a'r safle cyfan fel safle bridio. Gwnaed sawl galwad am astudiaeth ecolegol llawn.

**6. Ni fydd y tai a gynigir yn bodloni anghenion lleol nac yn fforddiadwy**

Roedd 30 o sylwadau yn credu y byddai'r tai a ddarperir yn dai marchnad mawr na fyddai'n bodloni anghenion lleol a byddent yn anfforddiadwy i bobl leol, yn arbennig pobl ifanc. Er bod peth consensws fod angen tai fforddiadwy, roedd synnwyr cyffredinol o bryder, hyd yn oed petai CBS Conwy yn ei wneud yn ofynnol, byddai datblygwyr yn torri'r cytundebau hyn.  Roedd rhai yn teimlo y dylai Cymdeithas Tai gael eu cefnogi i ddarparu tai (ar safleoedd eraill, llai), ac awgrymodd eraill y dylai nifer yr unedau ar y safle gael ei leihau.

**7. Mae hwn ac ymarferion ymgysylltu eraill wedi bod yn annigonol**

Derbyniwyd 30 o sylwadau yn amlygu nad oedd hwn na'r ymarferion blaenorol wedi cyrraedd digon o bobl, a bod cryfder y teimlad cymunedol yn gryfach ac yn ehangach na gipiwyd yn yr ymarfer (e.e. deiseb gyda 652 o lofnodion), a bod safbwyntiau'r gymuned wedi cael eu hanwybyddu. Roedd nifer yn teimlo y dylai pob preswylydd yn Hen Golwyn gael hysbysiad, dylai Swyddogion Conwy fod wedi mynychu digwyddiadau i ateb cwestiynau ac nid oes adborth wedi cael ei ddarparu ar y Strategaeth a ffefrir. Mynegodd eraill eu pryder fod aelodau etholedig yn cael eu hatal rhag cynrychioli safbwyntiau'r gymuned trwy weithdrefnau cynllunio.

**8. Meysydd eraill o bryder**

1. Gwnaed 19 o sylwadau o ran colli defnydd presennol; Fferm Peulwys fel y fferm hynaf yn yr ardal, colli gofod amwynder gwyrdd ac effaith ar lwybrau troed cyhoeddus.
2. Roedd 17 o sylwadau yn nodi pryder dros yr effaith uniongyrchol ar eiddo cymdogol a'r traffig, sŵn a llwch o adeiladu ar y safle, a fyddai'n debygol o bara am nifer o flynyddoedd.
3. Nododd 9 o sylwadau fod y safle yn gwbl anaddas ar gyfer teithio llesol yn sgil ei serthrwydd.
4. Cododd 6 o sylwadau bryderon am effaith y cynnig ar y Gymraeg ac y byddai cynnydd mor fawr yn y boblogaeth yn gwanhau defnydd yr iaith ymhellach yn Hen Golwyn.

**<u>ii). Camau Lliniaru a Gwelliannau</u>**

Er bod llawer o gyfranogwyr yn teimlo bod y dyraniad yn amhriodol (gyda nifer yn gwrthwynebu yn gyfan gwbl), roedd rhai yn fodlon cymryd rhan mewn trafodaethau a chyflwyno awgrymiadau yn ymwneud â chamau lliniaru yn erbyn effeithiau, dyluniad y safle a blaenoriaethau ar gyfer y gymuned pe bai'r safle'n cael ei ddatblygu. Fodd bynnag, hyd yn oed yng nghyd-destun y trafodaethau hyn, roedd nifer o'r farn y dylai'r pryderon a nodwyd yn rhan i) gael eu trin yn llawn a dylid rhoi cyfiawnhad llawn yn y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd o ran bob mater a godwyd.

Roedd yr awgrymiadau mwyaf cyffredin yn y trafodaethau hyn, yn nhrefn pa mor aml y'u codwyd (uchaf yn gyntaf) yn cynnwys:

**1. Mynd i'r afael â materion mynediad / cludiant / diogelwch y briffordd.** Rodd 34 o sylwadau yn ymwneud materion traffig a chludiant. Roedd nifer o'r rhain yn ailadrodd y pryderon, ond gwnaeth rhai'r awgrymiadau canlynol:

1. Paratoi asesiad traffig cyfredol a gwrthrychol a chynllun rheoli traffig priodol. Dylai hyn gynnwys astudiaethau llygredd traffig a dylai egwyddor yr astudiaethau gael ei ehangu ar gyfer yr holl bryderon allweddol a godwyd.
2. Sicrhau bod mynediad ar gyfer gwasanaethau brys a llwybrau diogel ar gyfer cludiant addysg yn cael eu hystyrid uchod.
3. Darparu mwy o wasanaethau bysiau / cludiant cyhoeddus (nododd rhai nad oedd hyn yn y dogfennau cynllunio).
4. Ehangu a sicrhau bod cyfyngiadau cyflymder yn cael eu gorfodi.
5. Ystyried yr effaith ar lwybrau troed cyhoeddus.
6. Osgoi gosod goleuadau traffig ar Gylchfan Marine.
7. Ystyried lleihau'r terfyn cyflymder presennol ar Lôn Peulwys tu hwnt i Meadowbank.
8. Sicrhau y darperir mynediad trwy'r safle ar gyfer traffig adeiladu cyn i'r datblygiad ddechrau er mwyn lleihau ymyrraeth.
9. Osgoi agor mynediad trwy ystâd Gwynant.
10. Sicrhau bod unrhyw welliannau i'r briffordd yn lletya'r cyfraddau traffig ac yn cynnig y gwelededd gorau posibl.

**2. Mynd i'r afael â phryderon isadeiledd / gwasanaethau lleol.** Roedd 25 o sylwadau yn pwysleisio pryderon o ran yr effaith ar isadeiledd lleol, sylwadau yn ymwneud â mynd i'r afael â materion traffig a chludiant a nodir uchod, ond roedd rhai yn gwneud yr awgrymiadau canlynol:

1. Blaenoriaethu darpariaeth o isadeiledd (ffyrdd, gwasanaethau) cyn datblygu'r tai.

2. Sicrhau bod unrhyw ddarpariaethau a wneir mewn polisi (adran 106, tai fforddiadwy, mannau agored ac ati.) yn cael eu gorfodi a'u darparu ac nid yn cael eu gwanhau trwy ddadleuon hyfywedd.
3. Sicrhau fod cyllid ar gyfer ysgolion a gwasanaethau iechyd yn gynaliadwy tu hwnt i'r costau sefydlu dechreuol, e.e. capasiti meddyg.
4. Sicrhau y darperir isadeiledd draenio digonol (gan gynnwys gwaith trin gwastraff) ar gyfer eiddo presennol a newydd.
5. Ystyried darparu amwynderau y gellir eu rhannu gyda'r preswylwyr presennol ac osgoi creu ystâd tai pur (siopau, canolfannau cymunedol, mannau agored, mannau chwarae ac ati).
6. Ystyried system wresogi ardal er mwyn leihau effeithiau ynni.

**3. Mynd i'r afael â phryderon fforddiadwyedd a phriodolrwydd.** Gwnaeth 22 o sylwadau'r awgrymiadau canlynol:

1. Lleihau graddfa'r datblygiad a nifer yr unedau neu ystyried safleoedd amgen (safleoedd tir llwyd).
2. Darparu mwy o dai cymdeithasol / fforddiadwy (ar safleoedd tir llwyd).
3. Sicrhau bod fforddiadwyedd wedi'i ddiffinio, wedi'i gyfiawnhau ac yn briodol yng nghyd-destun yr ardal leol.
4. Mynd i'r afael ag anghenion lleol mewn cymysgedd tai - sicrhau fod byngalos ac eiddo 1-2 ystafell gwely yn cael eu darparu (yn ddelfrydol mewn lleoliadau eraill) a sicrhau y gall pobl ifanc leol aros yn yr ardal.
5. Sicrhau nad yw tai fforddiadwy / tai cymdeithasol yn cael eu tanseilio gan ddadleuon hyfywedd.
6. Lleihau'r baich i drethdalwyr ar gyfer yr argyfwng digartrefedd presennol.

**4. Diogelu'r amgylchedd a natur.** Roedd 15 o sylwadau yn pwysleisio pryderon dros golli cynefinoedd lleol, ond roedd rhai awgrymiadau yn cynnwys:

1. Sicrhau bod asesiadau effaith amgylcheddol ac ecolegol yn cael eu cyflawni a bod unrhyw faterion yn cael eu lliniaru yn briodol.
2. Sicrhau nad yw'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ger Tŷ Mawr yn cael ei effeithio.
3. Ystyried sefydlu Gorchmynion Gwarchod coed ar gyfer y coed ar y safle.

1. **Dyluniad Adeilad / Safle.** Cododd 10 o sylwadau'r awgrymiadau canlynol:

1. Ystyried dyluniad effeithlon o ran ynni er mwyn lleihau effeithiau carbon; sicrhau bod y tai wedi'u gosod yn y cyfeiriad cywir a sicrhau bod isadeiledd ynni wedi'i ystyried.
2. Mae'r safle yn destun gwyntoedd cryfion a dylid ystyried hyn wrth ddylunio.
3. Dylai mannau agored cyhoeddus gynnwys caeau gwyrdd, llefydd i gerdded, nid ar gyfer plant yn unig, ond ar gyfer pobl o bob oed.
4. Dylai materion diogelwch megis mynediad i wasanaethau brys yn ystod y gwaith adeiladu, gael ei gynllunio.
5. Osgoi eiddo 3 llawr gyda gofod parcio bach
6. Sicrhau bod y safle wedi'i ddylunio ar gyfer pobl ar wahanol gamau mewn bywyd.
7. Creu man parcio / cyhoeddus ar lwybr deheuol Tŷ Mawr / Meirion Bach. Mae'r llwybr troed presennol wedi gordyfu ac nid yw'n cael ei ddefnyddio digon. Gall fod yn well.

**5. Awgrymiadau eraill.** Gwnaed 9 o sylwadau am yr argymhellion canlynol:

1. Nododd nifer y dylai arian Adran 106 gael ei orfodi, cael ei ddefnyddio ar gyfer y bwriad iawn gan flaenoriaethu budd y gymuned leol yn unig. Awgrymodd un i wella effeithlonrwydd ynni'r stoc dai presennol.
2. Sicrhau bod yr eiddo yn rhydd-ddaliad yn hytrach na lesddaliad.
3. Darparu cyfleusterau a fydd yn fuddiol i breswylwyr presennol a newydd - clwb ieuenctid, mannau cyfarfod ar gyfer pob oed a mannau agored - isadeiledd cymdeithasol, nid tai yn unig.

**6. Teithio Llesol.** Roedd 7 o sylwadau o ran teithio llesol yn nodi natur serth y safle a fyddai'n anaddas ar gyfer beicwyr a phawb heb law'r cerddwyr mwyaf heini. Nodwyd cadw, cynnal a gwella llwybrau troed presennol fel blaenoriaeth i rai.

## 5. Casgliadau ac Argymhellion

O'r 105 o drigolion yn Hen Golwyn a gyfrannodd i'r ymarfer hwn, mae'n glir fod y mwyafrif yn erbyn yr egwyddor o'r dyraniad arfaethedig gan fynegi ystod eang o bryderon ar effaith y cynllun ar draffig, gwasanaethau lleol, llifogydd a materion eraill.

Cydnabyddir bod y cyfranogwyr yn cynrychioli 1.29% o gyfanswm poblogaeth Hen Golwyn, ac felly ni ellir cymryd canlyniadau'r ymarfer yn arwyddocaol yn ystadegol neu fel cynrychiolaeth o safbwyntiau'r rhai na gymerodd ran. Fodd bynnag, o

ystyried pa mor aml a chyffredin oedd y materion a godwyd yn annibynnol mewn digwyddiadau, mae'n bosib y byddai materion tebyg yn cael eu hadlewyrchu mewn ymarfer ymgysylltu ehangach.

Mae'r materion a godwyd gan y gymuned yn yr adroddiad hwn (yng nghorff yr adroddiad a'r atodiadau) yn cael eu cyflwyno i CBS Conwy i'w hystyried wrth iddynt baratoi'r Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd; fel isafswm, mae Cymorth Cynllunio Cymru yn argymell fod yr holl faterion a godwyd yn cael eu trin, eu cyfiawnhau a'u hegluro yn ymgynghoriad y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, ac yn ddelfrydol bod ymateb yn cael ei baratoi i'r materion a godwyd a'u hanfon at y rhai a gymerodd ran a'i gyhoeddi ar eu gwefan. O ran yr ymgynghoriad sydd i ddod, awgrymodd Cymorth Cynllunio Cymru y dylid ystyried yr argymhellion yn adran 3 wrth gynllunio a hysbysebu ymarfer ymgynghori'r Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd.